# Gweithdy Atwrneiaeth Arhosol

Mynychais weithdy yn ddiweddar ar ‘Atwrneiaeth Arhosol’ (LPA) a drefnwyd gan Gynnal Gofalwyr. Helen Scott o gwmni Julie Burton Law gyflwynodd y sesiwn gan bwysleisio manteision LPA.

Nid yw meddwl a siarad am beth fyddai’n digwydd pe buasem ni’n colli’n gallu meddyliol yn hawdd ei wneud. Eto i gyd, os bydd rhywun yn cael anawsterau a fydd yn ei atal rhag gwneud penderfyniadau mwyach, bydd angen help arno i gadw trefn ar ei arian. Dogfen gyfreithiol yw’r Atwrneiaeth Arhosol (LPA) lle enwebir ffrind neu berthynas dibynadwy i ofalu am faterion ariannol unigolyn os cyfyd amser lle na fydd yr unigolyn yn medru gwneud hynny bellach.

Medr rhywun golli ei gallu meddyliol trwy anaf, anhwylder neu gyflwr a fydd yn effeithio ar sut y mae’r meddwl yn gweithio. Dyma rai o’r cyflyrau mwyaf cyffredin sy’n effeithio ar y meddwl: strôc, coma, deliriwm, cyfergyd, problemau iechyd meddwl difrifol, niwroanabledd/anaf i’r ymennydd, camddefnyddio alcohol a cyffuriau, Alzheimer's a mathau eraill o ddementia.

Ceir dau fath o LPA: un ar gyfer arian ac eiddo ac un arall ar gyfer iechyd a lles. Mae’n galluogi i chi gynllunio ymlaen llaw ac mae’n ffordd ddiogel o gadw rheolaeth ar benderfyniadau a wneir ar eich rhan.

Ar hyn o bryd, rhaid talu ffi llys o £110 er mwyn cofrestru’r ddogfen. Fodd bynnag, os yw’r sawl sy’n cwblhau’r LPA yn derbyn budd-daliadau penodol sy’n dibynnu ar brawf modd ar adeg cofrestru, ni fydd rhaid iddo dalu unrhyw beth neu os yw ei incwm yn llai na £12,000 y flwyddyn, dim ond hanner y ffi bydd angen iddo dalu.

Medrwch gwblhau’r ffurflenni eich hun neu ddefnyddio cyfreithiwr a fydd yn codi tâl am y gwasanaeth.

Y peth pwysig yw gweithredu’n gynnar. *Medrwch ond gwblhau Atwrneiaeth Arhosol pan fydd gennych allu meddyliol.*

Roedd y sesiwn hon yn addysgiadol dros ben ac roeddwn yn falch ein bod yn medru holi cwestiynau a chael cyngor synhwyrol o ran ein pryderon.

Rwy’n hynod ddiolchgar i Gynnal Gofalwyr am drefnu digwyddiadau mor amrywiol, sy’n darparu addysg ac adloniant. Mae’r digwyddiadau’n darparu’r wybodaeth ddiweddaraf i ofalwyr ac yn rhoi cyfle iddyn nhw gwrdd a rhannu profiadau ag eraill. Rwy’n sylweddoli fod cryn ofal yn cael

ei gymryd wrth gynllunio a threfnu’r gweithgareddau er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i ofalwyr.

Mae mynychu’r digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i ofalwyr gael gwybodaeth werthfawr am ddim, ac roedd cael cinio am ddim yn fonws go iawn.

~ Lyn Hughes, gofalydd o Ynys Môn